

THOMAS PENNANT, EMANUEL MENDES DA COSTA,
A 'NOD GLAS MAWDDWY'

Mewn rhifyn diweddar o'r *Cylchgrawn*, cafodd y darllenwyr gyfle i ddilyn hynt Thomas Pennant, y teithiwr a'r naturiaethwr, ar ei Daith drwy Feirionnydd.¹ Un lleoliad y tynnwyd sylw ato oedd Dinas Mawddwy, man ag iddo arwyddocâd arbennig i Pennant oherwydd cysylltiadau teuluol. Yn yr ysgrif hon, ystyrir ymhellach berthynas Pennant â'r ardal hon gyda thri nod: yn gyntaf, cwestiynu cronoleg y Teithiau yng Nghymru a argraffwyd yn y 1770au a'r 1780au; yn ail, datgelu diddordeb y Pennant ifanc mewn maes ar astudiaethau gwyddonol nad yw'n gyson yn cael ei gydnabod fel rhan o'i ddatblygiad ffurfiannol – ei waith fel daearegwr; ac yn olaf, asesu grym yr iaith Gymraeg ym mhrofiad a datblygiad cynnar Pennant.

ARGLWYDDIAETH DINAS MAWDDWY: YMWELIADAU PENNANT

Pan gyhoeddodd Pennant hunangofiant yn 1793, nododd yn fanwl ei hynt fel teithiwr dros y blynyddoedd – boed i Iwerddon, i Gyfandir Ewrop, yr Alban, Ynysoedd Heledd, Ynys Manaw, swydd Northampton, Caint neu Lundain.² Yn wir, yn y *Literary Life*, fe'i gwelwn yn gwneud ymdrech amlwg i'w gynrychioli ei hun fel teithiwr 'gwir': ar adegau, aeth y profiad ei hun yn drech na'r dymuniad i gyflwyno adroddiad ohono, hyd yn oed, fel pan ddychwelodd o'i daith i Iwerddon yn 1754, â'i deithlyfr mor esgrynog ag y bu ei ddiddanwch yn helaeth ('my journal proved to be as *maigre* as my entertainment was *gras*').³ Wrth gyflwyno hanes ei Daith i'r Cyfandir yn 1765, cyfleodd yn fyw yr elfen o ddarganfod y newydd a'r eithriadol yn ei adroddiad, gan osod enwau'r gwyddonwyr nodedig a gyfarfu mewn penawdau breision ar ymyl y dalennau, megis colofnau Ionig yn cynnal adeiladwaith y daith hynod a blaengar hon, i'w phrofi a'i gwerthfawrogi gan ei ddarllenwyr.⁴ Gan droi, wedyn, at ei deithiau i'r Alban, nododd sut y talwyd teyrngedau iddo ym mhob corfforaeth ddinesig yr ymwelodd â hi, gan gynnwys ei anrhydeddu â dinasfaint dinas Caeredin.⁵ Yr oedd dilyswyr ar bob tu, felly, â Pennant yn creu persona 'teithiwr' iddo'i hun gyda chryn sicrwydd o argyhoddi'r cyhoedd.

Yn gymharol, prin oedd yr ymdrech yn ei hunangofiant i ddilysu ei deithiau yng Nghymru:

After several journies over the six counties of North Wales, in which I collected ample materials for their history, I flung them in the form of a tour, and published the first volume in quarto, with xxvi plates, in 1778.⁶

Y mae'r cyfaddefiad iddo 'luchio'r deunydd helaeth a oedd ar gael iddo at ei gilydd i lunio'r Daith yn bur allweddol ac yn arwydd clir bod lle i gwestiynu'r disgwyliad o ddilysrwydd profiad Pennant fel teithiwr drwy ogledd Cymru naill ai yn y gyfrol gyntaf (1778) neu'r rhai a'i dilynodd (1781, 1783).⁷ Er iddo rybuddio'i ddarllenwyr o genhedliad cymysgliw y Daith yng Nghymru, fodd bynnag, y mae'r duedd i ddarllen ei daith fel naratif sy'n dilyn siwrnai gredadwy a real, yn cynrychioli greddf gref a phur elfennol ymysg darllenwyr *genre* llenyddiaeth taith. O geisio darllen Teithiau Cymreig Pennant fel hyn, fodd bynnag, fe'n gadewir yn fuan iawn gyda'r cwestiwn dyrys, 'Pryd fu Taith Pennant yng Nghymru?',

cwestiwn sy'n fwyfwy anodd ei ateb wrth i ni geisio dehongli haenau amrywiol a chyfoethog y testun.⁸

Yn achos Dinas Mawddwy a'r ardal gyfagos, y mae Pennant ei hun yn rhoi o'i wirfodd dystiolaeth i ni ynghylch ymweliadau a ragflaenodd yr ymweliad a ddisgrifiodd yn *The Journey to Snowdon* (1781), pryd bynnag oedd hwnnw. Erbyn i Pennant gyhoeddi'i Deithiau, yr oedd perthynas ei deulu ar ochr ei fam, Arabella (1689–1744) – teulu Mytton o Halston, Sir Amwythig – ag arglwyddiaeth Dinas Mawddwy yn bur hirhoedlog. Gellir olrhain y cyswllt yn ôl i briodas Thomas Mytton, aelod seneddol dros Amwythig, ac Eleanor, merch Syr John de Burgh a'i wraig Elizabeth, chwaer ac etifedd Foulk, Arglwydd Mawddwy, yn 1742.⁹ Drwy deulu Eleanor, a theulu ei mam hithau o'i blaen, y daeth yr arglwyddiaeth yn rhan o etifeddiaeth teulu Mytton. Gwyddai Pennant am yr olyniaeth hon, ac fe'i disgrifiodd yn *The Journey to Snowdon*.¹⁰ Nododd, at hynny, bod yr arglwyddiaeth eang hon o dan reolaeth ei gefnder ('under the rule of my worthy cousin, John Mytton, esquire').¹¹ Y cefnder dan sylw oedd John Mytton (1737–83) – mab i ewythr i Pennant, brawd ei fam Arabella, yntau hefyd o'r enw John Mytton (1690–1756).¹²

Dywed Pennant wrthom yn *The Journey to Snowdon* ei fod wedi ymweld â'r ardal hon yn blentyn, gan fwynhau'r profiad cyffrous, os peryglus, o ddringo llwybrau 'Craig y Dinas' i'r copa er mwyn cael gwibio'n ôl i lawr ar un o'r slediau a ddefnyddid i gasglu mawn, un o atgofion fy nain, a aned yn Ninas Mawddwy ddechrau'r ugeinfed ganrif, o'i phlentyndod hithau yn yr ardal.¹³ Yn dilyn pleserau bore oes, daeth mwynder ieuencid: dyma a gofnodir yn llythyrau Pennant at un o'i gysylltiadau gohebol cynharaf, y daearegwr a'r ffosilydd Emanuel Mendes da Costa (1717–91).¹⁴ Ym mis Ebrill 1752, ac yntau yn ei ugeiniau canol, cyfeiriodd mewn llythyr at da Costa at ei ymweliadau blynyddol â Dinas Mawddwy, 'a [?seat] of my Uncle Mytton's', ymweliadau a wnâi 'more on account of the Game than any real advantage'; dyma'r profiad, bid siŵr, a'i galluogodd i gyfeirio yn *The Journey to Snowdon* at y lluoedd o ieir cochion a'r grugieir duon a gysgodai ar y copaon uwchlaw Dinas Mawddwy, lle trôir tir yn gorsydd a rhostiroedd.¹⁵

Wrth i Pennant aeddfed *The Journey to Snowdon* ddod i lawr y rhiw i dref Dinas Mawddwy ei hunan, symudwn i dir sydd, yn ymddangosiadol o leiaf, yn cofnodi ymweliad gwirioneddol yng nghyswllt Taith a wnaeth Pennant drwy rannau o ogledd Cymru. Rhoddir argraff o achlysur dilys drwy'r disgrifiadau o unigolion yn ôl eu safleoedd yng ngweinyddiaeth yr arglwyddiaeth neu eu galwedigaethau proffesiynol; a chawn ein swyno gyda Pennant gan y croeso twymgalon a dderbyniodd yn y faenor ('I was accommodated with entertainment at the manor-house ...').¹⁶ Buan y siglir ein teimlad o amseriad gwirioneddol neu hanesyddol yr ymweliad o fewn naratif y daith, serch hynny, ac y mae'r Pennant sy'n gadael y faenor i fynd am dro dwy filltir ar hyd glannau afon Dyfi yn ymddangos yn gymeriad ar wahân, waeth pa mor hyfryd ('delightful') oedd y daith. Wrth ddechrau holi pwy oedd y trigolion y daith i gysylltiad â hwy ar ei ymweliad, fe'n poenir gan ansicrwydd ynghylch pa gyfnod yn benodol a drafodir yma. Awgrymir yn gryf nad oedd yr arglwydd yn bresennol fel rheol yn yr arglwyddiaeth: 'The recorder (in absence of the lord) tries all matters of property ...', meddir. Yn gynharach, fel y gwelsom, fe'n hysbyswyd mai 'my worthy cousin, John Mytton, esquire' oedd yn rheoli, ac o ddeall i'r cefnder hwn fwynhau teithio i'r Cyfandir yn ystod y 1760au, efallai nad syndod hyn.¹⁷ Ni allwn ond dyfalu a oedd presenoldeb ei ragflaenydd hefyd yn fylchog, â Pennant, o bosibl, yn cofio'n ôl i'w blentyndod pan oedd ei ewythr yng ngofal y faenor. Clywn wedi hyn dystiolaeth oddi wrth ustus yn yr arglwyddiaeth ynghylch gweinyddu cyfraith a threfn yno: 'The mayor tries criminals; but, as the late worthy

magistrate, a very honest smith, told me, ... for some years past, they have not adventured to whip'. Ai 'late' gan ei fod wedi marw oedd yr ustus clodwiw hwn, â Pennant yn adrodd tystiolaeth a godai o ymweliad ar ryw adeg amhenodol yn y gorffennol?

I gymhlethu'r dyfroedd ymhellach, y mae teithlyfr llawysgrif o daith a wnaeth Pennant drwy rannau o ogledd Cymru, gan gynnwys Meirionnydd, wedi'i ddiogelu yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.¹⁸ Yn yr achos hwn, y mae dyddiadau'r teithio wedi'u nodi'n glir: haf 1770 oedd y cyfnod dan sylw, a Pennant yn gadael Downing ar 12 Gorffennaf.¹⁹ Gwyddom o dystiolaeth atodol ei fod wedi cael cwmni dau John Lloyd ar y daith hon – John Lloyd, Hafodunos a Wigfair, a John Lloyd, Caerwys – ac y mae'n debygol fod ei artist personol, Moses Griffith, hefyd, yn un o'r criw. Nid o gyfeiriad y dwyrain – drwy Gorwen, Cynwyd, Llandrillo, Llandderfel, Rhiwaedog, a'r Bala – fel yn achos y Daith a gyhoeddwyd yn 1781 y cyrhaeddodd Pennant ardal Dolgellau, fodd bynnag, ond yn hytrach o'r gogledd, yn dilyn ymweliad â Llywydd Cymdeithas y Cymmrodorion, William Vaughan, yn ei gartref yng Nghors-y-gedol. Ac yn wahanol eto i Daith *The Journey to Snowdon*, ni soniodd yr un gair am ymweld â Dinas Mawddwy. Serch hynny, cafodd ei adroddiadau ynghylch nifer o leoliadau taith 1770 eu codi fwy neu lai yn eu crynswth o'r teithlyfr a'u cynnwys yn fersiwn argraffedig 1781 o'i Daith, yn eu plith nid yn unig yr ymweliad â pherthynas i John Lloyd, Caerwys, yng Nghwm Bychan, Ardudwy, ond hefyd ddisgrifiadau o rai o nodweddion topograffig a phensaernïol Bro Dysynni ('Craig y Deryn' a Chastell 'Teberri' yn eu plith) ac, wrth iddo droi'i gamrau'n ôl tua'r gorllewin, rai o uchafbwyntiau ardal Llanuwchllyn.²⁰

Rhwng adroddiadau dyddiedig y teithlyfr a deunydd atodol ar ffurf llythyr sy'n trafod ymweliad Pennant â Chorsygedol ar yr amser y disgwyli'dd iddo fod yno, neu'r datganiad a lofnodwyd ganddo ef a'r ddau John Lloyd yn tystio iddynt ymweld â'r ymprydwraig Mary Thomas yn Llangelynin, y mae nodweddion 'real' taith 1770 ym Meirionnydd yn ddigon sefydlog i'n galluogi i roi'n coel yng ngwirionedd y siwrnai honno fel digwyddiad.²¹ Ar yr un pryd, y mae'r croesffrwythloni a nodwyd rhwng y daith hon â'r deunydd a gyhoeddwyd yn 1781 (yn y benthyciadau o ddisgrifiadau'r teithlyfr o leoliadau yr honnodd Pennant iddo ymweld â hwy ar y daith gyhoeddiedig) yn tanseilio hygredd yr olaf fel siwrnai wirioneddol. Y mae Dinas Mawddwy, yn absenoldeb y cyfeiriad ati yn 1770, yn cael ei gadael mewn gwagle, a'n cred ynghylch cyfnod yr ymweliad honedig a ddarluniwyd yn *The Journey to Snowdon* yn cael ei siglo i'r craidd. All ein hymwybyddiaeth o ymweliadau niferus Pennant pan oedd yn dal yn ei ueginiau ag arglwyddiaeth ei ewythr ond dyfnhau'r ansicrwydd.

PENNANT A DA COSTA: DAU DDAEAREGWR

Yn ystod y 1750au, dechreuodd Pennant fagu diddordeb gwirioneddol mewn astudio daeareg, yn ffosiliau ac yn fwynau.²² Drwy gysylltiad teuluol, Roger Kynaston o dref Amwythig, llwyddodd i gychwyn perthynas ohebol ag un o naturiaethwyr mwyaf blaenllaw Prydain ar y pryd, yr Iddew Emanuel Mendes da Costa. Daethai teulu da Costa i fyw i Lundain o Rouen, yn dilyn erledigaeth o Bortiwgal, gan barhau â'u busnes fel masnachwyr cwrelau a diemwntau.²³ Yr oedd ymwneud â'r 'fasnach' hon yn un o gyfrifoldebau Emanuel: o ganol y 1740au, gwnaeth ymdrech i feithrin cysylltiadau eang drwy nifer o wledydd yr Ewrop y buasai'n rhaid i'w deulu ffoi ohoni, â'r rhwydweithiau hyn o *virtuosi* ymoleuedig yn allweddol i'w ddiddordeb mewn casglu ac astudio ffosiliau, cerrig a mwynau o bob math, gan eu dosbarthu a'u henwi gyda thrylwyrdd brwd.²⁴ Cymaint yr ymddiddorodd da Costa yn y maes nes, erbyn ei dridegau cynnar, yr oedd wedi cychwyn llunio astudiaeth ohono, â'i


fryd ar ei chyhoeddi. Hysbysebodd am danysgrifwyr i 'a History of Fossils' yn ystod 1751.²⁵ Daeth y cynigion ('proposals') hyn ar gyfer y cyhoeddiad i sylw Pennant, a arhosodd am gymeradwyaeth Kynaston o gymeriad yr awdur cyn ymrwymo i brynu'r gyfrol.²⁶ Ac yntau wedi teithio i ffosila i Gernyw yn 1746, pan oedd yn fyfyrwr yn Rhydychen, yr oedd diddordeb Pennant mewn mwynau a ffosiliau eisoes ynghŷn, a chredai fod ganddo yn ei feddiant rai ffosiliau nad oeddynt eto wedi'u disgrifio gan unrhyw un.²⁷ Fel y dywedodd wrth Kynaston, yr oedd yn barod iawn i ddangos y rhain i da Costa, neu i'w anrhegu ag enghreifftiau o ddyblygion yn ei gasgliad.²⁸

Dyma gychwyn perthynas ohebol a ddaeth â Pennant i gylch o ddaeargwyr ym Mhrydain a thu hwnt. Caed cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhyngddo ef, da Costa, a daeargwyr eraill yn ystod ymweliadau Pennant â Llundain; cyfnewid catalogau a pheccynau niferus o sbesimenau; a gwnaed trefniadau hyd yn oed i deithio ar y cyd i fyny'r Wyddfa ac i ardaloedd eraill yng ngogledd-orllewin Cymru.²⁹ Ysyaeth, ni lwyddodd da Costa i anrhydeddu'i addewid i deithio i ogledd Cymru yn ystod haf 1752, a bu'n rhaid iddo fodloni ar adroddiad Pennant o'r cyfoeth o gerrig, cregyn a chlai a welsai ar draethau Môn ac Ynys Enlli, yn nyffryn Nant Ffrancon, ac ar fynyddoedd ardal Dinas Mawddwy.³⁰ Nid y llythyr a adroddodd gyda'r fath fanyldra a chynnwrf ddarganfyddiadau'r daith hon oedd y tro cyntaf i Pennant enwi Dinas Mawddwy mewn gohebiaeth â da Costa. Yn gynharach yr un flwyddyn, yr oedd wedi anfon catalog o sbesimenau at sylw ei ohebydd, yn cynnwys 'A vein of vitriolic Marcasite from Dinas Mowthly in Merionethshire', gan ymhelaethu, 'The salts in this specimen have shot and it begins to perish. I am inform'd it fills a perpendicular fissure in a rock 80 yds. high'.³¹ Y mae'n amlwg o'r disgrifiad nad Pennant ei hun a fu'n casglu'r sbesimen hwn o farcasit. Gwyddom ei fod yn barod i anfon ei was i mewn i leoliadau cyfng – megis yr ogof ger Llanymynech, ar y ffin rhwng Sir Drefaldwyn a Sir Amwythig, y bu'n ei harchwilio ym mis Ebrill 1752, er enghraifft.³² Yn wir, yn ddiweddarach, broliodd wrth da Costa, 'My Servant whom I have made an excellent Fossil=hunter, has just brought me in an elegant Ludus Helmontii from the sea side' – arwydd sicr o bwysigrwydd ei berthynas â'i was i'w ddiddordeb mewn casglu ffosiliau.³³ Yn achos y marcasit o Ddinas Mawddwy, serch hynny, ymddengys fod gan Pennant chwilotwr ar ei ran yn yr ardal – rhywun a allai gasglu enghreifftiau iddo hyd yn oed yn ei absenoldeb ei hun.³⁴ Â blynyddoedd o ymweliadau â'r ardal y tu cefn iddo, prin ei bod yn syndod ei fod wedi mabwysiadu cysylltiadau yno a allai weithio drosto yn ôl y gofyn.

Ni allwn ond dyfalu pwy fyddai wedi cynorthwyo Pennant fel chwilotwr yn ardal Dinas Mawddwy, ond ceir un brodor y mae'n werth tynnu sylw ato yn y cyswllt hwn am ddau reswm, sef ei berthynas ag ewythr i Pennant, a'i ddiddordeb tebygol mewn mwyngloddio.³⁵ Daw tystiolaeth yn ei gylch o enau Lewis Morris, y polymath o Fôn a fu'n allweddol i Ymoleuedigaeth Gymreig a Chymraeg canol y ddeunawfed ganrif. Yr oedd Lewis a'i frodyr iau, Richard a William Morris, oll yn adnabod Pennant, a chwaraewyd rhan bwysig ganddynt yn ymddangosiad ei gyhoeddiad mawr cyntaf, astudiaeth o anifeiliaid, adar a physgod o dan y teitl *British Zoology* o 1763 ymlaen.³⁶ Yn wir, hwy oedd prif hyrwyddwyr y cyhoeddiad hwn wedi i ewythr i Pennant, James Mytton (bu f. 1764) o Richmond yn swydd Surrey, daflu dŵr oer ar gynlluniau ei nai i'w gyhoeddi.³⁷ Wrth drafod yr ewythr ym mis Rhagfyr 1761, enwodd Lewis Morris ef fel 'meistr Morgan Jones o'r Ddinas'.³⁸ Byddai Morgan Jones yn bresennol, felly, yn y cylchoedd y trô Pennant ynddynt pan ymwelai â maenor ei ewythr yn Ninas Mawddwy ac, er gwaethaf y bwlch o ran safle cymdeithasol, o wybod parodrwydd Pennant i siarad ag unrhyw un a allai roi gwybodaeth o ddiddordeb iddo, ni fyddai'n syndod

petai cyswllt wedi bodoli. Yr oedd Morgan Jones hefyd yn stiward i Edward Pughe o Fryn Eglwys, Sir Ddinbych, perchennog stad gwerth tua £500 y flwyddyn yn siroedd Trefaldwyn a Meirionnydd, yn ôl Lewis Morris; ac, at hynny, yn berchennog chwarel o fath yn ardal Dinas Mawddwy.³⁹ At ei gyfrifoldebau proffesiynol, y mae'n amlwg ei fod yn ŵr eang ei ddiddordebau; yn gantor, yn hynafiaethydd, ac yn adnabod ei filltir sgwâr fel cefn ei law.⁴⁰ 'Dyma heddyw Morgan Jones, o Ddinas y Mowddwy, a very ingenious man – a mountain antiquary', meddai Lewis yn ysgrifennu'n frwd o'i gartref ym Mhenbryn, Ceredigion, at ei frawd Richard yn Llundain; 'nid oes enw lle yngwaith Llywarch Hen nag ym Meddau Milwyr Ynys Prydain braidd, na wyr ple maent hyd y mynyddoedd.'⁴¹ Nid yw'n fawr syndod felly ddeall ei fod yn anrhegu caredigion Cymreig yn Llundain gyda rhoddion megis y garreg lefn ('hone') a roddodd ei fab, Siôn, i Richard, 'which perhaps may turn to a good account', meddai'r olaf, yn rhagweld ei defnyddioldeb ar gyfer hogs rasel, efallai.⁴²

Erbyn blynyddoedd cynnar y 1760au yr oedd diddordeb Pennant mewn daeareg yn dechrau edwino, wrth iddo droi ei olygon at y gwaith ar *British Zoology*. Y mae'n bosibl, ysywaeth, na fyddai wedi dod i gysylltiad â chyfaill Lewis Morris, Morgan Jones, o'r herwydd. Serch hynny, nid oes amheuaeth nad oedd diddordeb cyffredin mewn daeareg wedi'i ganoli yn ardal Dinas Mawddwy yn clymu Pennant a'r Morrisiaid ynghyd – y brodyr o Fôn yn ymhyfrydu mewn sbesimenau megis y garreg orllech, yr hogalen a'r tripoli, a sylw Pennant



XIX 3. Maenordy Dinas Mawddwy, gan Moses Griffith (c.1780)

Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

yn cael ei dynnu gan y plwm gwyn ('Killow') a'r marcasit neu faen tân fitriolig ('vitriolic marcasite').⁴³ Yr olaf o'r rhain a hawliodd y lle blaenaf yn atebion da Costa i lythyrâu Pennant, lle'i gwelwn yn mynd drwy'r broses allweddol o benderfynu ym mha ddosbarth i'w osod. Rhoddodd sylw i'w liw, gan ei ddisgrifio fel 'black with a blue Cast'; ac yna sefydlu mai ymhlith yr ocreu – deunyddiau pridd neu glai cyfoethog mewn ocsid haearn, â'u lliwiau'n amrywio o felyn golau i orengoch tywyll neu frown – y dylid ei gynnwys.⁴⁴ Pan gyhoeddodd *A Natural History of Fossils* yn 1757, yr oedd lle i drafod dau fath o'r priddliw clai hwn o dan y teitl 'Ochra nigra argillacea' (clai ocr du), gan nodi ymddangosiad yr un sbesimenau mewn gweithiau gan ddaeargwyr blaenorol, yn eu plith y polymath o Denmarc, Ole Worm ('Wormeus'; 1588–1654); y mwnolegydd a'r cemegydd Swedaidd, Johan Gottschalk Wallerius (1709–85); a'r Sais John Hill (1716–1775).⁴⁵ Nid enwir y sbesimen cyntaf o'r pridd y tu hwnt i'r enw Lladin ar frig yr adran hon o'r gyfrol, ond ceir disgrifiad manwl ohono (ei ansawdd llac, briwsionllyd; ei duedd i ffrwydro mewn dŵr cyn torri'n bowdr mân iawn; a hyd yn oed ei flas annymunol, bustlaidd), a rhoddodd da Costa flaenoriaeth i Ddinas Mawddwy fel y man lle y canfuwyd enghreifftiau ohono:

It is found in great plenty on the side (near the top) of Cay Avon, a high hill near Dynasmondhwy [sic], a village in Merionethshire, which place has long been famed for it, as is evident from an old British proverb; which says, it is one of the three remarkable things of that place.⁴⁶

Aeth rhagddo wedyn i ddisgrifio sbesimen arall cyffelyb o'r un ardal, gan ei enwi y tro hwn fel y 'vitriolic marcasite' neu'r 'Nod dû':

The rocks thereabouts also abound with a vitriolic marcasite. The inhabitants of that place, who call it Nod dû, which in the Welsh language signifies a black mark, prepare it by beating it in a mortar, and wetting it, and then make it up into balls, and use it in marking the sheep.⁴⁷

Ynghylch defnyddioldeb y pridd, bu yr un mor fanwl â Lewis Morris pan ddisgrifiodd y Monwysyn hwnnw garreg orllech Dinas Mawddwy, gan sylwi fel y byddai'r brodorion yn defnyddio'r gwagle yn ei chanol i gymysgu llaeth a blawd i'w plant, neu fel cynhwysydd i bobi cacen ynddo ('teisennau pobl dlodion', meddai Morris).⁴⁸ Nodi defaid wnâi'r brodorion â'r 'Nod dû', meddai da Costa – defnydd y gallwn yn hawdd ei werthfawrogi o ystyried mor ganolog i'r diwydiant gwlân yn ne Meirionnydd yw Dinas Mawddwy hyd heddiw. Crybwyllodd wedyn leoliadau eraill lle'r ymddengys yr un pridd, yn eu plith Sir Gaerhirfryn; Pappenheim, Bafaria, a Sacsoni yn yr Almaen; mwynfeydd arian yn Norwy a Sweden; ac, ym marn y botanegydd Joseph Pitton de Tournefort (1656–1708), Ynys Samos yn y Môr Egeaidd yng ngwlad Groeg. Daw'n amlwg, er mai gallu'r priddliw i lifo oedd yn allweddol ym mhob achos, fod y defnydd a wneid ohono mewn gwahanol rannau o'r byd yn amrywio ryw gymaint: o beintio yn yr Almaen, i lifo edau ar Ynys Samos. Rhoes da Costa sylw hefyd i'r dulliau o enwi'r sylwedd: yn Lloegr, fe'i gelwid yn 'collow' neu 'killow' – enw arall a drafodwyd gan Pennant, fel y gwelwyd – i adlewyrchu'r tebygrwydd rhyngddo â'r baw neu'r huddygl a welid ar gefn simneiai'r tai, ffenomen yr arferid ei galw yn 'collow' yng ngogledd Lloegr.⁴⁹

Fel y nodwyd, hepgorodd da Costa yr enw Cymraeg am y cyntaf o'r ddau sbesimen cysylltiedig a drafododd yma, y nod glas, am resymau a drafodir ymhellach isod, gan enwi yn unig y 'Nod dû'. Ni lwyddwyd i gael hyd i enghraifft berthnasol o'r term olaf: amhriodol yw'r ystyron moesol a nodir ac a enghreifftir yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*, ond teg fyddai

cymryd bod yr ystyron ymarferol a nodwyd gan da Costa hefyd yn arferedig ar ei gyfer.⁵⁰ Yr oedd y term 'nod glas' yn hysbys i George Owen (1552–1613), awdur *The Description of Pembrokeshire* (1603), a roddodd ddisgrifiad o garreg ryfedd, meddai, i'w chanfod mewn nant ym mynyddoedd y Preseli, yn ddu fel y glo ac yn feddal, a chanddi'r gallu i farcio unrhyw beth y deuai i gysylltiad ag ef.⁵¹ Fel pobl Dinas Mawddwy, gwnaeth trigolion y Preseli ddefnydd o'r garreg i nodi eu defaid, gan roi iddo'r un enw, 'nod glas which in English is blue raddle or blue marking stone'.⁵² Dyfynwyd sylwadau Owen gan Walter Davies (Gwallter Mechain; 1770–1829) yn ei arolwg o siroedd de Cymru ar gyfer y Bwrdd Amaeth, ac yr oedd tystiolaeth bellach Edward Williams (Iolo Morganwg; 1747–1826) ynghylch yr un garreg yn dod â'r cofnod hwn i'r un tir rhyngwladol ag un da Costa, drwy nodi bod hon llawn cystal â charreg debyg a fewnfudid o'r Swistir ar gyfer tynnu llun.⁵³ Yn y cyfeiriad at y term 'nod du' a'r 'nod glas' nas enwodd, yr oedd da Costa'n ddyledus i ddiddordeb Pennant yn y Gymraeg a'i chwilfrydedd yn ei chylch. Wrth roi meddiant o'r sbesimen i ardal Dinas Mawddwy, fodd bynnag, y mae'n amlwg iddo ildio i dystiolaeth wyrdueddol neu anghyflawn, gan fod yr enw am y garreg yn cael ei arfer yn Sir Benfro ar droad yr ail ganrif ar bymtheg os nad yn gynharach ac, at hynny, ein bod yn gwybod bellach ei bod yn bresennol ar draws ardal eang o Gymru, o arfordir Bae Ceredigion i gyffiniau Conwy.⁵⁴

THOMAS PENNANT A'R IAITH GYMRAEG

Yng ngohebiaeth Pennant a da Costa ceir tystiolaeth o beth trafodaeth ar yr 'old British proverb' y cyfeiriodd da Costa ati yn ei gyfrol nodedig ar ffosiliau yn 1757. Yn y drafodaeth hon, cawn gyfle i flasau balchder bro-garol Pennant tuag at Ddinas Mawddwy; asbri cellweirus ei ieuencid; a'i hyder wrth drin yr iaith Gymraeg mewn cyd-destun deallusol. Yr oedd yr hyder hwn bron yn sicr yn rhannol seiliedig ar ymwneud â Chymry Cymraeg ar lawr gwlad yn ne Sir Feirionnydd. Byddai Meirionnydd wedi bod yn llawn o siaradwyr Cymraeg uniaith drwy gydol y ddeunawfed ganrif, a Pennant, ymwelydd bonheddig o Sir y Fflint fwy dwyieithog, yn sicr o fod wedi sylwi ar yr iaith ac ymwneud â hi mewn rhyw ystyr yn ystod ei arosiadau yno, yn blentyn ac yn oedolyn fel ei gilydd.⁵⁵

Calon y drafodaeth yw'r hen ddywediad Cymraeg y gwelsom da Costa'n cyfeirio ato yn ei gyfrol. Pennant sy'n cyfeirio ato gyntaf, mewn llythyr dyddiedig 2 Medi 1753:

Inclosed is an old Brittish Proverb which I beg you would insert under the Article Killow, as it will serve to prove the antient right Moudhwy has to this clay. you may introduce it thus, 'the place where it is^{found} in greatest plenty is Kay avon et^{al}, near Dynas Moudhwy^{Merionethshire}, & that that place has been long noted for it is Evident from this old Brittish Proverb.—⁵⁶

Wedi'i leoli gerllaw y llythyr hwn yn nosbarthiad archifol yr ohebiaeth, ceir darn bychan o bapur sy'n cyflwyno'r dywediad y soniodd Pennant iddo'i amgáu:

Tri pheth o Fowddwy a ddaw:
Dŷn câs, nôd glâs, a Glaw.⁵⁷

Y mae'r cwpled hwn yn gwbl hysbys i frodorion Dinas Mawddwy hyd heddiw, er na lwyddais i ganfod enghreifftiau pellach ohono yn ysgrifenedig. Mewn mydryddiad di-ddyddiad heb enw bardd ynghlwm wrtho, cawn amrywiad arno, sy'n awgrymu ymhellach ei afael yn yr ardal:

O Fawddwy ddu ni ddaw – dim allan
 A ellir ei rwystrow;
 Ond tri pheth helaeth hylaw,
 Dyn atgas, Nod Glas, a gwlaw.⁵⁸

Y mae cywirdeb Cymraeg y dyfyniad a gyflwynwyd i da Costa ac y tyfodd yr englyn uchod ohono, bid siŵr, yn cyferbynnu â dull anghyfforddus Pennant o gyfeirio at enwau lleoedd yr ardal: yn y ffurfiau ‘Kay avon’, ‘Moudhwy’, a hyd yn oed yr ansicrwydd ynghylch cynnwys rhan flaenaf yr enw (‘Dynas’). Pan gyhoeddodd Pennant ei adroddiad ynghylch yr ardal dros ugain mlynedd yn ddiweddarach, fel ‘the vale of Mowddwy’ y cyfeiriodd ati, gan nodi hefyd bentref ‘Llan y Mowddwy’ a ‘Dinas y Mowddwy [sic]’, gyda ‘Dinas Mowddwy’ yn y pennawd bras ar ymyl y ddalen – ffurfiau mwy cartrefol-Gymreig ond rhai sy’n parhau i ddangos peth diffyg cysondeb.⁵⁹ Gwelir o archwilio’r ffurfiau ar enw Dinas Mawddwy yn Archif Melville Richards o enwau lleoedd fod amrywiadau megis y rhai a ddefnyddiodd Pennant yn gyffredin drwy gydol y cyfnod modern cynnar, gyda ‘Dinas’ yn cael ei gynrychioli gan ‘Dynas’ yn lled reolaidd, a’r ffurfiau ar ‘Mawddwy’ yn glytwaith o amrywiadau (Mouthe, Mowthoy, Mowthwy, Mowthway, mawthoy, Mowddwey, Mothus, Mouthwey, Mowthue).⁶⁰ Ymhlith rhai ohonynt, gellir synhwyro ymgais i geisio rhoi ystyr sy’n cydfynd â ffurfiau posibl mewn lleoliadau eraill neu o fewn teithi’r Saesneg, ac y mae’n demtasiwn – ac yn hwyl – ceisio darllen geirdarddiadau cwbl amhriodol yn rhai o’r ymdrechion. Onid oes blas o ‘geg’ neu ‘aber’ afon Gwy (y ‘Wye’ Saesneg), pa mor amhriodol bynnag, yn yr ymdrech ‘Dynas-Mouthwey’ a gofnodwyd yn 1680, er enghraifft; ac onid yw’r ymdrech i gyfleu ‘düwch’ y lle fel petai’n cael ei bwysleisio fwy fyth ar fap John Evans yn 1795, drwy roi acen grom i ddiweddu’r ffurf ‘Dinas y Mowddû’?⁶¹ Nid anghyffredin, felly, yw’r ansicrwydd ynghylch yr enw, a gallwn ildio i Pennant ddyledus barch am i’r dywediad Cymraeg fod yn hysbys iddo ac, at hynny, am iddo nodi union leoliad y pridd dan sylw, sef Cae Afon, sy’n ffurfio rhan o drum yn rhedeg heibio Foel Dinas, Maen Du, Cribin Fawr a Waun Oer ger Craig Maes-glas i’r gorllewin o Ddinas Mawddwy.⁶²

Bu’n rhaid i da Costa ofyn fwy nag unwaith cyn i Pennant roi cyfieithiad o’r cwpled iddo, rhywbeth y teimlai’r angen amdano os oedd am gynnwys cyfeiriad ato yn ei gyfrol gyhoeddedig. ‘[T]he Old British Proverb I have introduced in My description of the killow but pray send me up the translation of it that I may ^{also} insert it also else I think it will seem somewhat Imperfect’, meddai ganol Medi 1753, gan atgoffa Pennant drachefn ddiwedd y mis ei fod wedi anghofio anfon y cyfieithiad.⁶³ Pan ddaeth yr ateb, yr oedd arlliw o falais ynghlwm wrth reswm Pennant dros ddal yn ôl:

The old Brittish Proverb is common in Merionethshire. I designed it (entre nous) as a comical revenge on the Parson of the Parish of Moudhwey who promised both to subscribe to your work, and supply me with quantities of Killow: Both which He has failed in. The interpretation you must not wholly insert, being thus: Moudhwy is famed for three things quarrelsome People, blue redden, and much rain: as this Proverb is only designed by you to shew the ancient claim moudhwey has to this earth, you have only occasion to underscore nod glâs for the Benefit of English readers; the rest we Britons shall understand. Pray do not you observe the blue cast this ochre has; which I think strongly deserves the Epithet my countrymen have given it.⁶⁴

Fel cyfieithiad, y mae ymdrech Pennant – nad yw’n adlewyrchiad llythrennol – yn gwbl briodol. Yr hyn a ddaw i’r amlwg, fodd bynnag, yw nad oedd yn awyddus i ddatgelu

cyfrinachau'r Gymraeg i'r darllenydd Saesneg. Nid oedd ond angen i da Costa roi'r gwreiddiol, gan danlinellu ('underscore') y term 'nod glâs', a gadael yr ystyr lawnach i 'ni'r Brytaniaid' ('we Britons'). Lluniodd Pennant yma, felly, garfan ieithyddol ar wahân – y Cymry neu'r Brytaniaid – gan ei leoli ei hun yn gyfforddus o fewn ei ffiniau. At hynny, er ei fod yn eithrio darllenydd Saesneg ('English readers'), gwahoddodd gyfaill o dras Iddewig i mewn i'r rhengoedd. Yr oedd jôc fewnol ynghlwm ar gyfer y sawl a ddeallai'r iaith yn y cyfeiriad bwriadol at berson y plwyf a haeddai gael ei ddisgrifio fel 'dŷn câs' ar gorn ei gamweddau yn erbyn Pennant a'i gyfaill. Un ohonynt oedd iddo dorri ei addewid i ddarparu enghreifftiau digonol o'r plwm du ('killow') dan sylw. Ceir yma awgrym pellach, wrth gwrs, ynghylch pwy oedd y cysylltiadau y trôl Pennant atynt yn ardal Dinas Mawddwy am gymorth i ganfod sbesimenau.⁶⁵

Pan aeth da Costa ati i baratoi ei gyfeiriad at y 'nod glas' ar gyfer ei gyfrol, osgodd gyfeirio at y ddihareb, gan enwi'r 'nod glas' yn anelwig fel 'one of the three remarkable things of that place', fel y gwelsom. Nid derbyn yn wasaidd ei gau allan o bau ieithyddol 'we Britons' Pennant ydoedd; yn wir, fel yr awgrymodd yr 'entre nous' dengar, nid oedd yn fwriad gan Pennant ei eithrio. Penderfynodd da Costa, am resymau'n deillio o'i brofiad ei hun o'r Cymry, fodd bynnag, na fyddai'n meiddio codi gwrychyn yr un ohonynt – gan gynnwys person y plwyf yn ardal Dinas Mawddwy – er mwyn boddhau ysfa ddychanol Pennant. Trafododd y 'ddihareb Gymraeg' drachefn mewn llythyr ddechrau Hydref:

As to the Welsh Proverb in your next Only write the Welsh you would have me insert & the English of it[.] for the rest I will not cannot Attack the Old Britons for they have very hot Blood & do not forget so easily for I remember when I was at Goodwood with the late duke of Richmond there was a welsh Clergyman in that Neighbourhood that would never be friendly to a hampshire man & the reason he gave the duke was that about 3000 years ago A Hampshire man Affronted One of his family.⁶⁶

Teimlir yma fod da Costa'n troedio'n ofalus fel aelod o gymuned Iddewig, wedi'i leoli ar ymylon cymdeithas y Brydain Pedair Cenedl, efallai'n ofni towlu'r drol ymhlith darllenydd posibl ei gyfrol a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Dewisiodd yn hytrach na chwarae rhan yng nghwerylon hanesyddol y Cymry a'r Saeson ganolbwyntio ar enwi a lleoli'r graffit, gan ymateb i sylw Pennant yn ei lythyr blaenorol yngylch y lliw: 'As to the blue Cast of the killow I have in my description taken Notice of it thus "black with a blue Cast." I am resolved to rank it Among the OCHRES'.⁶⁷ Ni ellir synnu, y mae'n debyg, at ffurf fwyfwy fwngleriedig y lleoliad lle'i canfuwyd – 'Dynasmondhwy' – â da Costa, yntau, yn cynnig ei geiniogwerth, efallai, drwy osod 'mond' yng nghanol yr enw, gair sy'n galw i gof 'mont' am 'mynydd' yn Lladin ac mewn sawl iaith Ewropeaidd arall, onid gwall gan y cysodydd ydoedd 'n' am 'u' bedol.

Os oedd Pennant yn ymgysylltu â'r Gymraeg drwy draddodiad llafar yn ardal Dinas Mawddwy, cymaint cryfach oedd ei allu i wneud yr iaith yn ganolog i'w astudiaethau deallusol drwy ddefnyddio gweithiau arloesol ei gydwladwyr, yn neilltuoel Edward Lhuyd, y ffosilydd a'r hynafiaethydd ac, ychydig yn fwy annisgwyl, efallai, Dr John Davies, y geiriadurwr o Fallwyd. At Lhuyd y troes pan holodd da Costa 'which is the true name & spelling, Carnarvonshire? Canavanshire or Caernarvonshire?', â'i ateb yn blaenoriaethu'i gydwladwr dros yr hynafiaethydd o Sais, William Camden: 'Cambden or rather Lhuyd spells Caernarvonshire thus'.⁶⁸ Mewn llythyr at da Costa ym mis Mawrth 1754 yr oedd arweiniad Lhuyd ac edmygedd Pennant ohono i'w clywed yn gryf, drachefn.⁶⁹ Cychwynnodd Pennant drwy roi sylw i'r gair 'Steinomarga':

I never understood the propriety of this word till lately perusing Agricola de nat. foss. p. 578, I found by him that the word marga signified medulla or marrow: remembring [*sic*] then that Pliny Lib. 17. C. 6. tells us that it is a British word alia est ratio, quam Britannia et gallia invenere alendi eam ipsa: quod genus margam vocant [*Y mae dull arall, y mae Prydain a Gâl wedi'i ddarganfod, o faethu'r ddaear â hi ei hun: galwant y sylwedd hwn yn farl*] speaking of the methods used in manuring the ground. I immediately applied myself to the Archæologia Britannica wrote by my famous Countryman Lhuyd for its derivation which I find is from the British word Mêr, Medulla; and Pliny (though He does not seem to understand the litteral meaning) yet comes very near it, when He says est autem quidem [*sic; recte* 'quidam'] terræ adeps, ac velut glandia in corporibus, ibi densante se pinguitudinis nucleo [*Ceir hefyd fath o fraster y ddaear, ac fel chwarennau mewn cyrff, yno y mae cnewyllyn o fraster yn tewychu*].⁷⁰

Fel y byddai'n gwneud dro ar ôl tro yn ei lyfrau taith yn ddiweddarach, aeth at y Clasuron, yn yr achos hwn wedi'i symblu drwy ddarlenn *De Natura Fossilium* yr ysgolhaig a'r mwnolegydd George Bauer (Georgius Agricola; 1494–1555), lle y gwelodd gyfeiriad addawol at waith Pliny'r hynaf ar fyd natur. Yn Llyfr XVIII ei *Naturalis historia* (a gyhoeddwyd gan ei nai, Pliny'r Ieuengaf gryn ddeng mlynedd ar hugain wedi marwolaeth Pliny yn 79 O.C.), trafodir dulliau o fraenaru tir, gan ryfeddu at rai arferion, megis taflu pridd gwael neu bridd ysgafn, mandyllog, ar ben pridd sy'n llaith ac yn rhy ir – arfer a ddisgrifir gan Pliny fel un gwallgof ('dementis operæ est').⁷¹ 'Pa obaith sydd i w'r sy'n amaethu ei dir yn y fath fodd?', holodd megis mewn ffieidd-dod.⁷²

Yn wrthbwynt i'r amaethwr gwael hwn, fodd bynnag, canfu Pliny ddulliau mwy goleuedig ymhlith trigolion Prydain a Gâl, sef y dull o ddefnyddio marl neu bridd cleiog i fraenaru'r tir. Symbylwyd Pennant gan y cyfeiriad at ei gyndeidiau ar Ynys Prydain i chwilita yng ngwaith Edward Lhuyd, lle y canfu'r cyfeiriad at 'Medulla, Mêr, merion, muydion, madrydlyn. *Marrow in bones; in herbs and plants the pith and heart*'.⁷³ Yr oedd y dynfa at ei gydwladwr ac at y potensial i ddarganfod ac ymhelaethu ar ei wybodaeth wyddonol drwy gyfrwng y Gymraeg yn gerrynt cryf ac amlwg yma. Yn ei ymateb ef i'r darganfyddiad hwn, aeth da Costa, yn ei dro, ati i gysylltu'r gair Cymraeg â therm Almaeneg, 'Steinmark', a oedd, meddai, yn deillio o'r Lladin 'Stenomarga', 'a [^]very bad Corrupt Word formed of the German Word Stein or Stone & the Latin Word Marga or Marle'.⁷⁴ Ategodd nad oedd yn syndod ganddo bod tebygrwydd rhwng 'Mar' [*sic*], yr hen air Brythoneg am 'Marrow', ar y naill law, a'r gair Almaeneg amdano, 'mark', ar y llaw arall, gan fod Brythoneg ac Almaeneg fel ei gilydd yn ganghennau o'r hen iaith Diwtoneg.⁷⁵ Wrth ymateb i sylwadau da Costa ynghylch perthynas y Frythoneg a'r Diwtoneg yn achos y gair arbennig hwn, cywirodd Pennant ddarlenniad da Costa o'r gair Cymraeg o dan sylw, gan briodoli'r camgymeriad i'w amanuensis: 'the british word should be wrote mêr, not mar. perhaps that was a mistake of your Secretary'.⁷⁶ (Fe wyddom, gan mai copi blêr yn llaw da Costa o'r llythyr yn unig sydd wedi goroesi, a bod y gwall i'w weld yn hwnnw, nad ar yr ysgrifennydd yr oedd y bai.) At hyn, mewn ôl nodyn, sylwodd Pennant iddo chwilio am y geiriau 'mêr' a 'merydd' yng ngeiriadur Dr John Davies, lle'r awgrymwyd perthynas â'r Hebraeg.⁷⁷ 'This I submit to you, not knowing anything of your Language', meddai wrth da Costa.⁷⁸ Yr oedd Dr Davies yn bleidiol i ddamcaniaeth a welai gysylltiad rhwng y Gymraeg a'r Hebraeg, ac nid syndod, felly, gweld cyfeiriad at gysylltiadau geirdarddol rhwng y ddwy iaith yn ei Eiriadur.⁷⁹ Nid yw'n ymddangos i da Costa a Pennant barhau â'r drafodaeth hon, ond y mae diddordebau ieithyddol y ddau ffosilydd hyn yn dangos ehangder eu hastudiaethau a'u parodrwydd fel meddylwyr o gyfnod yr Ymoleuedigaeth i weld cysylltiadau ar draws amryfal ddisbyblaethau, boed yn y dyniaethau neu'r gwyddorau. Yn achos Pennant, y mae

golwg ar agweddau at iaith ac at y Gymraeg yn benodol yn dangos meddwl agored sydd yn perchnogi'r Gymraeg a'i siaradwyr, yn ddysgedigion y gorffennol ac yn Gymry ei oes ei hun. Yr oedd i fro-garwch at Feirionnydd gadarn ei Chymraeg, gellir dadlau, ran bwysig mewn gwreiddio ei chwilfrydedd deallusol wrth iddo symud ymlaen yn ddiweddarach i archwilio tiriogaethau eraill ym Mhrydain, Ewrop, a thu hwnt.

Nid cymeriad i'w enwi heb brofiad ohono oedd Dr Davies i'r Thomas Pennant a ddarluniodd i ni siwrnai – boed wir neu ffuglennol – o Ddinas Mawddwy i Fallwyd gerllaw ac yn ôl drachefn i'r Dinas yn *The Journey to Snowdon*.⁸⁰ I Pennant, gwyddom drwy archwilio'r ohebiaeth gynnar hon â da Costa, yr oedd ei ddisgrifio fel 'Doctor Davies, author of the dictionary' yn gwbl naturiol; yn wir, pan aeth i drafod gemau hynafol y Cymry, y 'Pedair Camp ar Hugain', yn ddiweddarach yn *The Journey to Snowdon*, y mae'n amlwg ei fod wedi bodio geiriadur John Davies drachefn, er iddo dderbyn cyngor ac arweiniad John Lloyd, Caerwys, y tro hwn, gŵr a ganmolodd yn ei ragair i'w Daith yng Nghymru am ei wybodaeth helaeth o'n hiaith hynafol ('his great knowlege [*sic*] of our antient language').⁸¹ Gobeithir y bydd yr archwiliad hwn o gyfnod cynnar ym mywyd Pennant wedi llwyddo i ansefydlogi testun y Daith yng Nghymru; adfer pwysigrwydd daeareg fel maes yn natblygiad cynnar ei hawdur; a newid ein caffaeliad o ymwneud Pennant â'r Gymraeg, gan ddwyn ei ddiddordeb yn yr iaith i gyfnod cryn dipyn yn gynharach na'r un a gynrychiolir gan ei berthynas â John Lloyd, Caerwys. At hynny, efallai y bydd wedi creu argraff ddyfnach o gymeriad chwilfrydig, diflino ac, ar adegau, gellweirus Thomas Pennant.

FFION MAIR JONES

Y Bala

CYDNABYDDIAETH

Diolch i Mr Alun Puw am drafod 'nod glas Mawddwy' â mi; i Dr Rhidian Griffiths am gymorth gyda Lladin Pliny; ac i Dr Dyfed Elis Gruffydd am ddarllen drafft o'r ysgrif hon.

CYFEIRIADAU

¹ Brian J. Slyfield, 'Thomas Pennant (1726–98) and his travels through Merioneth', yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Hynafiaethau Sir Feirionnydd* (2019) (CCHChSF mewn cyfeiriad pellach), 362–71.

² Thomas Pennant, *The Literary Life of the Late Thomas Pennant, Esq. By Himself* (London, 1793), *passim*.

³ *Ibid.*, t. 4.

⁴ *Ibid.*, tt. 4–8.

⁵ *Ibid.*, tt. 15–16.

⁶ *Ibid.*, t. 26.

⁷ Gw. Thomas Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]* (London, 1778); *idem*, *The Journey to Snowdon* (London, 1781); ac *idem*, *The Continuation of the Journey* (London, 1783). Sylwer fod y dyddiadau 1770 ac 1773 yn ymddangos ar fersiynau gwahanol o wynebdden y gyfrol gyntaf, ond mai'r ail ddyddiad sy'n cael ei ystyried gywiraf. Yn ddiweddarach, rhwymwyd *The Journey to Snowdon* a *The Continuation of the Journey* ynghyd i ffurfio ail gyfrol y Teithiau. Mewn cyfeiriadau pellach isod, defnyddir y teitl *A Tour in Wales 1770 [1773]* gyda

- rhif cyfrol ar gyfer yr holl rannau. Gw. R. Paul Evans, 'Thomas Pennant's writings on North Wales' (traethawd MA anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Abertawe, 1985), tt. 15, 85 n. 73.
- ⁸ Y mae ateb y cwestiwn hwn yn un o heriau'r prosiect 'Teithwyr Chwilfrydig: Thomas Pennant a'r Daith yng Nghymru a'r Alban'; gw. <<https://curioustravellers.ac.uk/cy/>> ac, am ffynonellau cysylltiedig, <<https://editions.curioustravellers.ac.uk/>> [cyrchwyd 14 Ebrill 2022].
- ⁹ John Burke a John Bernard Burke, *A Genealogical and Heraldic Dictionary of the Landed Gentry of Great Britain & Ireland. Vol. II.* (London, 1847), t. 909.
- ¹⁰ Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]*, II, t. 81.
- ¹¹ Ibid.
- ¹² Burke a Burke, *A Genealogical and Heraldic Dictionary of the Landed Gentry*, II, t. 910; WikiTree d.g. John Mytton (1690–1756), ar <<https://www.wikitree.com/wiki/Mytton-37>> [cyrchwyd 6 Mai 2022]. Yn ei ewyllys, clustnododd John Mytton roddion elusennol i dlodion amryfal blwyfi, yn eu plith rodd o £50 i'r rhai anghenus yng ngbantref Mawddwy. Gw. profeb ewyllys John Mytton, Halston (24 Ionawr 1784), ar <<https://discovery.nationalarchives.gov.uk/details/r/9171ff5f-6539-4c63-93a8-ddd358de8802>> [cyrchwyd 16 Mawrth 2022].
- ¹³ Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]*, II, t. 81.
- ¹⁴ Ynghylch da Costa, Iddew o dras Seffardi, gw. ymhellach isod; *ODNB* d.e. Mendes da Costa, Emanuel; a Geoffrey Cantor, 'The Rise and Fall of Emanuel Mendes da Costa: A Severe Case of "The Philosophical Dropsy"?'', *The English Historical Review*, Cyf. 116, Rhif 467 (2001), 584–603. Gwarchodwyd yr ohebiaeth rhyngddo a Pennant, sy'n dyddio o 1752 hyd 1780, yn Archifdy Sirol Swydd Warwig (ASSW mewn cyfeiriadau pellach), CR 2017/TP408.
- ¹⁵ Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 26 Ebrill 1752, yn ASSW, CR 2017/TP408/3; Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]*, II, t. 78.
- ¹⁶ Ibid., t. 82.
- ¹⁷ Ymddengys i John Mytton ymgymryd â'r Daith Fawr yn 1759–61, a dychwelyd i'r Eidal yn 1765. Gw. John Ingamells (gol.), *A Dictionary of British and Irish Travellers in Italy 1701–1800* (London, 1997), tt. 696–7; Gareth Williams, *The Country Houses of Shropshire* (Woodbridge, 2021), t. 276.
- ¹⁸ Llsg. LIGC 2532B, 'Tours in North Wales'.
- ¹⁹ Ibid., f. 15r.
- ²⁰ Gw. Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]*, II, tt. 93–4, 114–17; Ffion Mair Jones, 'Pennant yn Llanuwchllyn', ar <<https://curioustravellers.ac.uk/cy/pennant-yn-llanuwllyn/>> [cyrchwyd 14 Ebrill 2022].
- ²¹ Richard Morris at Thomas Pennant, 17 Gorffennaf 1770, yn Ffion Mair Jones, 'Thomas Pennant a'r Morrisiaid: Tri llythyr o Archifdy Sirol Swydd Warwig', *Tlysau'r Hen Oesoedd*, Rhif 40 (2016), 5–13, yn enw. 10; datganiad yn llaw Thomas Pennant, 18 Gorffennaf 1770, yn Llsg. LIGC 2594E, ffolder Sir Feirionnydd.
- ²² Defnyddir 'daeareg' a'r ffurfiau cysylltiedig 'daearegwr, daearegwyr' yma yn unol â'r diffiniad yn Dyfed Elis-Gruffydd, *Geiriadur Daeareg a Gwyddorau Daear* (Talybont, 2021) d.e. daeareg. Sylwer bod cyfeiriad pendant yma at berthnasedd sawl gwyddor i'r maes, gan gynnwys palaeontoleg a mwynoleg, lle nas enwir yr olaf yn niffiniad *Geiriadur Prifysgol Cymru*. Gw. GPC d.e. daeareg.
- ²³ *ODNB* d.e. Mendes da Costa, Emanuel; Cantor, 'The Rise and Fall of Emanuel Mendes da Costa: A Severe Case of "The Philosophical Dropsy"?'', 585.
- ²⁴ Ibid., 586.
- ²⁵ Gw. *Shellers from the Past and the Present* d.e. Da Costa, Emanuel Mendes, ar <<https://www.conchology.be/?t=9001&id=16617>> [cyrchwyd 17 Mawrth 2022].
- ²⁶ Thomas Pennant at [Roger Kynaston], 8 Mawrth 1752, yn ASSW, CR 2017/TP408/1.
- ²⁷ Pennant, *Literary Life*, t. 1; R. Paul Evans, 'The life and work of Thomas Pennant (1726–1798)' (traethawd PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Abertawe, 1993), t. 31; Thomas Pennant at [Roger Kynaston], 8 Mawrth 1752.
- ²⁸ Ibid.
- ²⁹ Am gyfarfod rhwng Pennant a ffosilwyr eraill yn 'Amgueddfa' da Costa, gw. y cynllun 'Ichnographia Musei Dacostiani', yn ASSW, CR 2017/TP 204/1. Ymhellach ynghylch y cyfnewid sbesimenau a'r teithiau ffosila, gw. Ffion Mair Jones, *Thomas Pennant: Cysylltiadau Cymreig* (i ymddangos).
- ³⁰ Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 17 Awst 1752, yn ASSW, CR 2017/TP408/14.
- ³¹ Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 11 Mai 1752, yn ibid., /5.
- ³² Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 26 Ebrill 1751, yn ibid., /3.
- ³³ Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 24 Medi 1752, yn ibid., /18.
- ³⁴ Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 26 Ebrill 1752.
- ³⁵ Gw. ymhellach n. 65 isod.
- ³⁶ Ceir manylion cyhoeddi'r *British Zoology* mewn pedair rhan o 1763 ymlaen yn y lle cyntaf, yn Richard Gough,

British Topography (London, 1768).

- ³⁷ Gw. Evans, 'The life and work of Thomas Pennant (1726–1798)', tt. 146–7.
- ³⁸ Lewis Morris at Richard Morris, 18 Rhagfyr 1761, yn *The Letters of Lewis, Richard, William and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid Mon) 1728–1765*, gol. gan John H. Davies, 2 gyf. (Aberystwyth, 1907, 1909), II, t. 423. (Defnyddir *ML* mewn cyfeiriadau pellach at y golygiad hwn.) Nid yw'n gwbl sicr mai James Mytton oedd 'meistr Morgan Jones' er mai dyna a awgrymir yn Evans, 'The life and work of Thomas Pennant (1726–1798)', t. 409 n. 210. Gwelsom eisoes natur perthynas ei frawd, John Mytton, ag arglwyddiaeth Dinas Mawddwy (n. 12 uchod), ac ni sonnir yn ewyllys James Mytton am ei nai, John Mytton yr ieuengaf: trosglwyddodd ei holl eiddo (ac eithrio rhoddion i un gwas a dwy forwyn) i'w chwaer, Esther Mytton. Ewyllys James Mytton o Richmond, Surrey, 28 Medi 1764, yn yr Archifau Cenedlaethol, Kew, PROB 11/902/276.
- ³⁹ Lewis Morris at Richard Morris, 20 Tachwedd 1761, yn *ML*, II, t. 412; Richard Morris at Lewis Morris, 8 Tachwedd 1761, yn *ibid.*, t. 402. Ynghylch Pughe, gw. ymhellach Lewis Morris at Richard Morris, 20 Ebrill 1761, yn *ibid.*, t. 344; a Joseph Foster, *Alumni Oxoniensis: The members of the University of Oxford, 1715–1886* (4 cyf., Oxford, 1891), III, t. 1161. Nodir yn yr olaf i Pughe fatricwleiddio yng Ngholeg yr Iesu yn ddeunaw oed yn 1759, tystiolaeth sy'n cydfynd â'r wybodaeth a roddodd Lewis Morris yn ei gylch yn ei lythyr at Richard, 20 Tachwedd 1761.
- ⁴⁰ Ynghylch ei ddawn fel canwr, gw. Richard Morris at Lewis Morris, 12 Mawrth 1762 yn *ML*, II, t. 457.
- ⁴¹ Lewis Morris at Richard Morris, 9 Chwefror 1761, yn *ibid.*, t. 295.
- ⁴² Richard Morris at Lewis Morris, 8 Tachwedd 1761 yn *ibid.*, t. 402; *Oxford English Dictionary* d.e. hone, n. 1. (Cyfeirir at y ffynhonnell olaf fel *OED* mewn cyfeiriadau pellach.)
- ⁴³ William Morris at Lewis Morris, 3 Mawrth 1761, yn *ML*, II, t. 313; Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 11 Mai ac 17 Awst 1725, yn ASSW, CR 2017/TP408/5 a /14.
- ⁴⁴ Emanuel Mendes da Costa at Thomas Pennant, 6 Hydref 1753, yn ASSW, CR 2017/TP408/66.
- ⁴⁵ Ole Worm, *Museum Wormianum: seu historia rerum rariorum* (Lugduni Batavorum, 1655); Johan Gottschalk Wallerius, *Mineralogia: eller, Mineralriket* (Stockholm, 1747); John Hill, *The Natural History of Fossils* (London, 1748).
- ⁴⁶ Emanuel Mendes da Costa, *A Natural History of Fossils*, t. 89.
- ⁴⁷ *Ibid.*, tt. 89–90.
- ⁴⁸ Lewis Morris at William Morris, 13 Chwefror 1761, yn *ML*, II, t. 302; ac am ymateb ei frawd, gw. William Morris at Lewis Morris, 3 Mawrth 1761, yn *ibid.*, tt. 312–13.
- ⁴⁹ *Ibid.*, t. 90; a *OED* d.e. collow, n. Gwaith John Woodward (bu f. 1728) yw ffynhonnell da Costa, ac fe'i dyfynnir hefyd yng nghofnod *OED*.
- ⁵⁰ *GPC* d.e. nod du.
- ⁵¹ 'A history of Pembrokeshire by George Owen, Esq. of Henllys, Lord of Kemes; with additions and observations, by John Lewis, Esq. of Manarnawan, in XXVIII Chapters', *Cambrian Register*, II (1796), 53–230, yn enw. 102.
- ⁵² *Ibid.*
- ⁵³ Walter Davies, *A General View of the Agriculture and Domestic Economy of South Wales*, 2 gyf. (London, 1814), tt. 94–5.
- ⁵⁴ Ynghylch dealltwriaeth gyfredol o ymddangosiad y 'nod glas', gw. 'Nod Glas Formation', yn The BGS Lexicon of Named Rock Units, ar <<https://webapps.bgs.ac.uk/lexicon/lexicon.cfm?pub=NOG>> [cyrchwyd 30 Mawrth 2022].
- ⁵⁵ Geraint H. Jenkins, Richard Suggett ac Eryn M. White, 'The Welsh Language in Early Modern Wales', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *The Welsh Language before the Industrial Revolution* (Cardiff, 1997), tt. 45–122, yn enw. tt. 51, 57.
- ⁵⁶ Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 2 Medi 1753, yn ASSW, CR 2017/TP408/53.
- ⁵⁷ *Ibid.*, /54.
- ⁵⁸ Gw. W. M. Condy, *The Snowdonia National Park* (London, 1967), tt. 32–3.
- ⁵⁹ Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]*, I, tt. 78, 79, 81.
- ⁶⁰ Archif Melville Richards: Cronfa ddata enwau lleoedd d.g. Dinas Mawddwy, ar <<http://www.e-gymraeg.co.uk/enwau lleoedd/amr/cronfa.aspx>> [cyrchwyd 24 Mawrth 2022].
- ⁶¹ Gw. *ibid.* am y cyfeiriadau 'Dynas-Mouthwe', yn J. Adams / Index Villaris (London, 1680); a 'Dinas y Mowddu' yn John Evans – Map of North Wales (1795). Ynghylch arwyddocad yr ôl-ddodiad -wy, sy'n gyffredin mewn enwau afonydd, gw. Hywel Wyn Owen a Richard Morgan, *Dictionary of the Place-Names of Wales* (Llandysul, 2008), t. 315.
- ⁶² Ynghylch y lleoliad, gw. Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol, d.g. Cae Afon, ar <<https://historicplacenames.rcahmw.gov.uk/placenames/recordedname/2addda2a-5d07-425b-93c4-4ce26d6082c8>>; ac am deithiau cerdded sy'n cynnwys y lleoliad hwn, <<https://www.snowdonia.gov.wales/ymweld/walking/mountain-walks/waen-oer-ridge>> a

- <https://www.tripadvisor.co.uk/ShowUserReviews-g1096505-d610941-r95901961-Dolbrodmaeth_Riverside_B_B-Dinas_Mawddwy_Snowdonia_National_Park_North_Wales_Wale.html> [cyrchwyd 24 Mawrth 2022].
- ⁶³ Emanuel Mendes da Costa at Thomas Pennant, 15 Medi a 27 Medi 1753, yn ASSW, CR 2017/TP408/54 a /56.
- ⁶⁴ Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 3 Hydref 1753, yn *ibid.*, /57. Sylwer ar y ffurfiau newydd eto ar yr enw 'Mawddwy', arwyddion pellach o'i ansefydlogrwydd yn amgyffred Pennant ac yn y cyfnod yn gyffredinol.
- ⁶⁵ Richard Hughes a'i fab John a weinyddai ym Mallwyd yn ôl adroddiad ynghylch deoniaeth Llanelwy yn 1749. Gw. Roger L. Brown, 'Two Merioneth deaneries within the diocese of St Asaph, 1729–91', yn y rhifyn presennol o *CCHChSF*, 25, ac *ibid.*, 32, am Thomas Richards, curad Llanymawddwy yn yr un flwyddyn. Yn Clergy of the Church of England Database d.g. Mallwyd, y mae'r wybodaeth ynghylch swyddogion yr eglwys ym Mallwyd, sef y plwyf lle saif Dinas Mawddwy, yn fylchog, ac ni chynhwysir enw ar gyfer y cyfnod o dan sylw; gw. <<https://theclergydatabase.org.uk/jsp/locations/index.jsp>> [cyrchwyd 23 Mehefin 2022].
- ⁶⁶ Emanuel Mendes da Costa at Thomas Pennant, 6 Hydref 1753, yn *ibid.*, /66.
- ⁶⁷ *Ibid.*
- ⁶⁸ Emanuel Mendes da Costa at Thomas Pennant, 7 Rhagfyr 1754, yn *ibid.*, /110; Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa 10 Rhagfyr 1754, yn *ibid.*, /111.
- ⁶⁹ Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 8 Mawrth 1754, yn *ibid.*, /92.
- ⁷⁰ *Ibid.*
- ⁷¹ C. Plinii Secundi, *Naturalis historiae libri XXXVII*, gol. Gabrielis Brotier (Londini, 1826), t. 2659.
- ⁷² 'Quid potest sperare qui talem colit?'. *Ibid.*
- ⁷³ Edward Lhuys, *Archæologia Britannica, Giving Some Account Additional to what has been hitherto Publish'd, of the Languages, Histories and Customs Of the Original Inhabitants of Great Britain: From Collections and Observations in Travels through Wales, Cornwall, Bas-Bretagne, Ireland and Scotland. Vol. I. Glossography* (Oxford, 1707), t. 87.
- ⁷⁴ Emanuel Mendes da Costa at Thomas Pennant, 5 Mawrth 1754, yn ASSW, CR 2017/TP508/89.
- ⁷⁵ Am drafodaeth ar ddamcaniaethau Edward Lhuys ynghylch perthynas yr ieithoedd Celtaidd a'r Diwtoneg, gw. Caryl Davies, *Adfeilion Babel: Agweddau ar Syniadaeth Ieithyddol y Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 2000), t. 73.
- ⁷⁶ Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 22 Mawrth 1754, yn ASSW, CR 2018/TP408/93.
- ⁷⁷ John Davies, *Anitiquae linguae Britannicae et linguae Latinae, dictionarium duplex* (Londini, 1632) d.e. Mêr, Merydd.
- ⁷⁸ Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 22 Mawrth 1754.
- ⁷⁹ Gw. Davies, *Adfeilion Babel*, tt. 12–13.
- ⁸⁰ Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]*, II, t. 82.
- ⁸¹ Gw. Jones, *Thomas Pennant: Cysylltiadau Cymreig*; Pennant, *A Tour in Wales 1770 [1773]*, I, iv.

This article takes another look at Thomas Pennant's relationship with the Dinas Mawddwy area, a location of particular significance to him in his youth because of a connection through his mother's family with the lordship of Mawddwy. The discussion aims to shed light on three questions, through the use of the available evidence – ranging from the published account which appeared as *The Journey to Snowdon* in 1781, to the manuscript account of a 1770 tour in north Wales, to an important correspondence of the 1750s. Firstly, it considers what Pennant's accounts of visits to Dinas Mawddwy tell us about the chronology of the published *Tour in Wales*, and how they unsettle the confident authorial narrative of his progress through Merioneth as presented there. Secondly, it uncovers the youthful Pennant's fascination with the world of geology and shows how he developed his cognizance in this field alongside one of the most prominent geologists of his day, the Jewish fossilist Emanuel Mendes da Costa (1717–91). Thirdly, drawing further on Pennant and da Costa's correspondence, it considers the significance of the Welsh language to Pennant's early experience, showing how he was awake to the use of Welsh in the remote, virtually monoglot area of Dinas Mawddwy, and used contact with local people alongside intellectual curiosity regarding seminal works of Welsh scholarship by Edward Lhuys (1660–1709) and John Davies (c.1567–1644), Mallwyd, to advance and enrich his scientific studies.